# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-18-08 (p9): 25 Medi 2008**

## Ymateb Ysgrifenedig i'r adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd o dlodi tanwydd yng Nghymru

### Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i fod yn ymrwymedig i'n targedau o ran dileu tlodi tanwydd yng Nghymru cyhyd ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag rhaid i ni gydnabod pa mor heriol yw'r targedau bellach gyda phrisiau ynni'n parhau i godi ers 2004 ac, yn fwy diweddar, y 'wasgfa gredyd' a'r cynnydd cyffredinol mewn costau byw nad oes gennym reolaeth dros unrhyw un ohonynt.

Felly mae'n dra phwysig ein bod yn sicrhau'r gwerth ychwanegol eithaf posibl o'r ffactorau hynny sy'n dylanwadu ar dlodi tanwydd y "mae" gennym reolaeth drostynt neu ddylanwad uniongyrchol arnynt; yn y bôn gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeilad y cartref a chymorth a chefnogaeth i wneud yn fawr o incwm/cynhwysiant ariannol.

Dyna pam rydym yn adolygu strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth y Cynulliad a rôl rhaglenni presennol o ran cefnogi'r strategaeth, megis y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (HEES). Mae'r adolygiad yn digwydd yng nghyd-destun y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni a'r targed i leihau carbon blynyddol 3% o ran y meysydd sydd wedi'u datganoli, ill dau'n ymrwymiadau yn "Cymru'n Un". Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithredu ar dlodi tanwydd yn ganolog i'n strategaeth ehangach a'n rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi'n gyffredinol.

Mae'n hanfodol fod ein hadolygiad o'n strategaeth tlodi tanwydd, a rôl rhaglenni fel HEES, yn digwydd o dan gochl y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio pob dylanwad posibl yn gydlynus i gefnogi ein cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'n helpu i gyfrannu i'r cynllun a'i lunio, a bwriadaf ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori erbyn diwedd eleni.

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor; caiff ei ganfyddiadau a'i argymhellion eu hystyried yn rhan o'r broses uchod.

Isod rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion unigol yn yr adroddiad sydd wedi'u hanelu at Lywodraeth y Cynulliad. O ran adolygiad HEES, rwy'n deall pam, gyda phrisiau ynni'n codi, y byddai'r Pwyllgor Cynaliadwyedd eisiau prysuro ymlaen gyda'r adolygiad o HEES er mwyn gweithredu'r newidiadau i'r cynllun mewn pryd i'r gaeaf hwn. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gwerthfawrogi bod angen iddynt elwa ar ymgynghoriad cyhoeddus eang a ffurfiol er mwyn gwneud newidiadau ar sail tystiolaeth gan ganolbwyntio ar y dinesydd. Nid yw hyn yn ymarferol o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan y Pwyllgor ond yn ogystal mae'n annoeth os ydym eisiau symud ymlaen mewn ffordd wirioneddol gydgysylltiedig a chyfannol.

Nid wyf wedi ymateb i'r argymhellion a anelir at Lywodraeth y DU, Ofgem neu'r darparwyr ynni; sef Argymhellion 1, 2, 5 a 6. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor os rhof ddiweddariad cyffredinol am fy nhrafodaethau â'r cyrff hyn.

Ers yr Uwchgynhadledd Tlodi Tanwydd a gynullwyd gan Ofgem ym mis Ebrill eleni, rwyf wedi parhau i gael cyfarfodydd â Gweinidogion Llywodraeth y DU ac Ofgem, yn fwyaf diweddar drwy'r Grŵp Gweinidogion Rhynglywodraethol ar Dlodi Tanwydd. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd â'r Gymdeithas Adwerthu Ynni (ERA) ac rwy'n cael cyfres o gyfarfodydd â darparwyr ynni unigol. Y pwyntiau allweddol rwyf yn parhau i'w pwysleisio yw: yr angen am wybodaeth a chyngor eglurach am dariffau fel y gall y defnyddiwr wneud dewis yng ngoleuni hynny ynghylch newid cyflenwr; mai'r tariff isaf y mae pob cyflenwr yn ei gynnig ddylai'r tariff cymdeithasol fod; a bod rhaid rhoi sylw i'r prisiau uwch a delir gan gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu sydd yn fregus neu ar incwm isel. Yn ychwanegol, er fy mod yn gwerthfawrogi cyfyngiadau cystadlu marchnad ynni rydd, rwyf wedi pwysleisio'r angen am sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae diddordeb arbennig gennyf yn hyn o safbwynt rhannu gwybodaeth fanylach am rwymedigaeth y cyflenwyr o dan y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT).

### Prif Argymhelliad 3:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog llywodraeth y DU i adolygu ei gwelliannau diweddar i Fesur Ynni'r Deyrnas Unedig i wneud yn siŵr bod yr ehangu mesuryddion call yn gyffredinol yn cael ei ddarparu heb oedi.

### Ymateb:

Derbyn mewn egwyddor yn amodol ar ganlyniadau arfarniad Llywodraeth y DU o'r costau / manteision.

Rwyf eisoes wedi cadarnhau cefnogaeth gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad i ehangu mesuryddion call yn gyffredinol yng Nghymru.

Credwn fod Mesuryddion Call yn cyflwyno amrediad o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a manteision i gwsmeriaid, yn ogystal â chyfrannu i gyflwyno ein strategaeth ficrogynhyrchu. Yn benodol, gobeithiwn y byddai'r dechnoleg newydd yn helpu i ddod â'r costau i gyflenwyr ynni i lawr yn yr holl broses filio a mesur, ac felly y gall hwyluso tuedd ar i lawr yn hytrach nag at i fyny o ran prisiau ynni.

Fodd bynnag, fel yr wyf hefyd wedi ei wneud yn glir mewn Cyfarfodydd Llawn, rhaid bod sail gadarn o dystiolaeth i gefnogi ehangu mesuryddion call yn statudol. Felly rydym yn aros am ganlyniadau'r arfarniad sydd ar y gweill gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio

Rheoleiddio, a ddylai elwa ar y treial cymunedol cyfredol yn Sain Tathan a'r treialon cartrefi unigol yn Ne Ddwyrain Cymru.

### Goblygiadau ariannol:

Ni ddisgwylir dim i Lywodraeth y Cynulliad. O ran defnyddwyr Cymru, os bydd ehangu mesuryddion call yn orfodol, disgwylir y gallai canran o'r costau gael ei throsglwyddo'n ganran i ddefnyddwyr yn rhan o'u biliau nwy a thrydan.

### Prif Argymhelliad 4:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw rannu data'n cynnwys ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wardiau etholiadol penodol mewn tlodi tanwydd, i sicrhau fod y dull gweithredu mwyaf effeithiol yn cael ei ddefnyddio i dargedu pob cwsmer sydd mewn tlodi tanwydd.

### Ymateb:

Derbyn

Rwy'n cefnogi rhannu data'n llawn fel modd o allu nodi a thargedu'n well y cartrefi hynny sydd fwyaf mewn angen a mwyaf bregus.

Yn ogystal â manteisio ar y cynnig i rannu data Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn edrych i weld a oes gennym ddata y gellid eu rhannu i nodi a thargedu cartrefi sy'n agored i niwed, gan gynnwys y data dros ardaloedd bychain rydym wedi'u comisiynu.

### Goblygiadau ariannol:

Dim ar hyn o bryd. Caiff unrhyw gostau ychwanegol a all godi eu talu o'r cyllidebau Adrannol presennol.

### Prif Argymhelliad 7:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu rhaglen ôl-osod cartrefi anodd eu cynhesu y mae teuluoedd mewn tlodi tanwydd yn byw ynddynt, fel rhan o ymrwymiad parhaus i ehangu'r rhaglenni i bob cartref anodd ei gynhesu yn ddiweddarach.

### Ymateb:

Derbyn yn rhannol

Rwy'n dal i gefnogi'r nod sylfaenol o hyrwyddo gwelliannau ym mherfformiad effeithlonrwydd ynni cartrefi anodd eu cynhesu. Fodd bynnag rhaid cydbwyso rhwng helpu deiliaid tai sy'n gallu talu a'r rhai sydd i bob pwrpas mewn tlodi tanwydd. Rhaid i ni gydnabod hefyd fod lliniaru tlodi tanwydd yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth y Cynulliad, cyflenwyr ynni ac unigolion.

Rwyf wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd y gallai Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â chyflenwyr allanol fel cyflenwyr ynni, ariannu rhaglen ôl-osod cartrefi anodd eu cynhesu lle mae deiliaid mewn tlodi tanwydd yn byw. Mae hyn yn cael ei archwilio'n rhan o'r gwaith ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni. O ran microgynhyrchu, rwyf eisoes wedi cyhoeddi y bydd Cymru'n rhan o brosiect peilot o dan Raglen Adeiladau Carbon Isel y DU i osod unedau gwresogi microgynhyrchu mewn cartrefi incwm isel. Byddwn yn cael £1 miliwn o Lywodraeth y DU y byddwn yn rhoi arian cyfatebol iddo. Mae'r gwaith ar y fanyleb ar y gweill ac rwy'n gobeithio rhoi rhagor o fanylion cyn gynted ag sy'n bosibl am sut bydd y prosiect peilot yn gweithio yng Nghymru.

### Goblygiadau ariannol -

Arwyddocaol. Caiff peilot y Rhaglen Adeiladau Carbon Isel ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth y DU ac o gyllidebau ariannol presennol. Fodd bynnag, pe derbynnid yr argymhelliad hwn yn llawn, byddai goblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth y Cynulliad na ellid eu talu o gyllidebau adrannol presennol.

### Argymhelliad 8:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n prysuro 'mlaen gyda'r amserlen ymgynghori ar y cynllun effeithlonrwydd ynni ac arbedion cenedlaethol i alluogi i unrhyw reoliadau newydd ar y rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Cartref gael eu cyflwyno mewn pryd ar gyfer gaeaf 2008.

### Ymateb:

Gwrthod

Rwy'n cydymdeimlo â'r teimladau y tu ôl i'r argymhelliad yng ngoleuni prisiau ynni'n codi, a gaiff effaith uniongyrchol ar ddeiliaid tai y gaeaf hwn. Fodd bynnag ni fyddai'n helpu yn y tymor hir i newid y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (HEES) heb ymgynghoriad trylwyr a manwl. Er mwyn cael set ystyrlon o newidiadau arfaethedig yn y pen draw, mae angen i'r ymgynghoriad elwa ar amrediad eang o randdeiliaid a buddiannau, y mae gan nifer ohonynt farn sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Ar hyn o bryd rydym yn ymgymryd â phroses ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol y disgwyliwn iddi ddod i ben ddechrau Hydref. Bydd hyn yn galluogi i adborth

gael ei gynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni ar gyfer ymgynghori erbyn diwedd eleni. Bydd yr amserlen hon yn ein galluogi i ddod â newidiadau i HEES ymlaen mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol newydd 09/10.

### Goblygiadau ariannol:

Dim

### Argymhelliad 9:

Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth adolygu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a rhaglenni eraill a anelwyd at wella effeithlonrwydd ynni, y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y rhaglenni hyn yn y dyfodol wedi'u targedu at y rhannau hynny o Gymru lle mae'r rhan fwyaf o gartrefi mewn tlodi tanwydd.

### Ymateb:

Derbyn

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn fy sesiwn dystiolaeth, bydd edrych ar ffyrdd o dargedu adnoddau'n well at y rhai sydd mewn tlodi tanwydd yn rhan ganolog o'r adolygiad.

Goblygiadau ariannol

**:**

Ni nodwyd dim ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd angen talu o'r cyllidebau presennol am unrhyw newidiadau i HEES, er enghraifft i dargedu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd yn well. Bydd angen ystyried unrhyw gostau ychwanegol a all gael eu nodi yn rhan o'r broses o gynllunio busnes a chyllidebu.

Jane Davidson
Medi 2008
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai